## Cwestiynau Cyffredin – Gweithdrefn Gwyno i Fyfyrwyr

Mae'r daflen hon yn ateb cwestiynau cyffredin am Weithdrefn Cwynion y Brifysgol.
Mae'r weithdrefn lawn ar gael gan y Gwasanaethau Addysg neu ar-lein yn: https://myuni.swansea.ac.uk/cy/bywyd-academaidd/rheoliadau-academaidd/ymddygiad-a-chwynion/y-weithdrefn-gwyno/

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill am y Weithdrefn Cwynion, e-bostiwch: studentcases@abertawe.ac.uk**

Mae Prifysgol Abertawe'n ymrwymedig i sicrhau profiad addysgol o ansawdd uchel i fyfyrwyr. Fodd bynnag, gall fod adegau pan fydd myfyrwyr yn teimlo nad ydynt wedi derbyn addysg o'r ansawdd neu wasanaeth o'r safon y gellid ei disgwyl o fewn rheswm.

Os oes gennych broblem yn ystod eich amser yn y Brifysgol, rhowch wybod i ni. Drwy wneud hynny, byddwch yn ein helpu i wella'n gwasanaethau i chi ac i fyfyrwyr eraill.

***Pwy sy'n gallu cwyno dan y weithdrefn hon?***

Gellir defnyddio'r Weithdrefn Gwyno os ydych wedi cofrestru fel myfyriwr ac mae gennych gŵyn am eich rhaglen astudio neu ymchwil, neu os ydych yn anfodlon ar unrhyw wasanaeth cysylltiedig y mae'r Brifysgol yn ei ddarparu.

Gallwch ddefnyddio'r Weithdrefn Gwyno hefyd os ydych yn gyn-fyfyriwr Prifysgol Abertawe sydd wedi tynnu'n ôl o'ch rhaglen, neu wedi ei chwblhau, ar yr amod eich bod yn gwneud eich cwyn o fewn 3 mis i dynnu'n ôl/gwblhau'ch rhaglen, neu o fewn 3 mis i'r digwyddiad(au) sy'n sail i'r gŵyn - pa ddyddiad bynnag sydd gyntaf.

Yn fras, gellir defnyddio'r weithdrefn ar gyfer pob cwyn gan fyfyriwr ac eithrio materion sy'n destun eu gweithdrefnau eu hunain (er enghraifft: cwynion ynghylch aflonyddu/bwlio; pryderon/apeliadau yn erbyn penderfyniadau ar asesu a dilyniant). Nid yw'r weithdrefn hon yn gymwys i gwynion dienw - mae gwybodaeth ar gael am gwynion dienw yn Adran 5.5. y Weithdrefn Cwynion.

***Pryd dylwn i Gwyno?***

Dylid cyflwyno cwynion cyn gynted â phosib, oherwydd gallai oedi hir gyfyngu ar y ffordd y gallwn ymchwilio i'ch cwyn neu ar ein gallu i unioni pethau. Fel arfer, ni fydd y Brifysgol yn ystyried cwyn sy'n cael ei chyflwyno mwy na 3 mis ar ôl yr achos sydd wedi arwain at y gŵyn.

***Â phwy gallaf gysylltu os oes angen cyngor neu gymorth arnaf?***

Mae Canolfan Gyngor Undeb y Myfyrwyr ar gael i roi cymorth a chyngor cyfrinachol i fyfyrwyr ynghylch cwynion ac mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim i fyfyrwyr. Gallwch gysylltu â'r Ganolfan Gyngor drwy e-bostio: advice@swansea-union.co.uk.

Gallwch gysylltu â'r Gwasanaethau Addysg hefyd am gyngor ynghylch y Weithdrefn Cwynion [gweler uchod].

***Fydd pawb yn gwybod am fy nghwyn?***

Na fydd. Gall achwynwyr a'r rhai sy'n destun cwynion ddisgwyl i gwynion gael eu trin mewn modd cyfrinachol ac i'w preifatrwydd gael ei barchu. Fodd bynnag, fel arfer caiff y gŵyn ei chopïo i'r unigolyn sy'n destun y gŵyn, er mwyn iddo gael cyfle i ymateb fel rhan o'r broses ymchwilio.

***Sut gallaf i wneud cwyn? Beth yw'r weithdrefn?***

**Cam 1 – Datrysiad Anffurfiol**

Gellir datrys y rhan fwyaf o gwynion yn hawdd ac yn gyflym drwy eu codi'n anffurfiol gyda'r unigolyn/unigolion perthnasol pan ddaw'r broblem i'r amlwg yn y lle cyntaf.

Fel rheol, rhaid codi cwynion anffurfiol (Cam 1) o fewn 3 mis i ddyddiad y digwyddiad(au) a oedd yn sail i'r gŵyn.

Os oes modd, dylech drafod eich cwyn yn gyntaf â'r unigolyn sy'n destun y gŵyn. Neu, efallai yr hoffech drafod eich cwyn â Phennaeth eich Adran, Cyfarwyddwr eich Rhaglen neu'ch Tiwtor Personol. Mae'n bosib y bydd rhai materion cyffredinol yn addas i'w trafod ym Mhwyllgor Ymgynghorol Staff a Myfyrwyr eich Ysgol.

Gall Canolfan Gyngor Undeb y Myfyrwyr eich helpu i godi'ch cwyn yn anffurfiol.

**Cam 2 - Cwyn Ysgrifenedig Ffurfiol i Bennaeth yr Ysgol/yr Adran Weinyddol (drwy'r Gwasanaethau Addysg)**

Os na allwch ddatrys eich pryderon yn anffurfiol, neu os teimlwch na allwch fynd at yr unigolyn/unigolion perthnasol yn uniongyrchol, dylech gyflwyno cwyn ysgrifenedig at Enwebai Cwynion y Gwasanaethau Addysg yn unol â'r amserlen ganlynol:

- O fewn 21 diwrnod i ddyddiad yr ymateb i'ch cwyn anffurfiol (Cam 1); neu
- (Lle na chyflwynwyd cwyn anffurfiol) o fewn 3 mis i ddyddiad y digwyddiad(au) a oedd yn sail i'r gŵyn.

Dylai'ch cwyn gynnwys:

- Manylion eich cwyn – byddwch yn gryno ac yn eglur, a chyfeiriwch at unrhyw ddigwyddiadau neu ddyddiadau penodol;
- Unrhyw gamau anffurfiol a gymerwyd gennych eisoes (gan gynnwys enwau unrhyw aelodau staff sydd wedi ymwneud â'r gŵyn) a'r canlyniadau;
- Pam rydych yn anfodlon o hyd;
- Pa ganlyniad yr hoffech ei weld;
- Copi o unrhyw ddogfennau neu ohebiaeth sy'n berthnasol i'r gŵyn neu'n ei chefnogi.

Gallwch e-bostio eich cwyn i studentcases@abertawe.ac.uk

Bydd yr Enwebai Cwynion yn ysgrifennu atoch i gadarnhau bod eich cwyn wedi'i derbyn yn ddiogel, a gall ofyn i chi ddarparu rhagor o wybodaeth neu eglurhad. Yna cyfeirir eich cwyn at Bennaeth yr Ysgol/yr Adran Weinyddol berthnasol, a bydd yn ceisio ateb yn ysgrifenedig **o fewn 28 niwrnod gwaith.** (Bydd yn cymryd mwy o amser i archwilio rhai cwynion). Dylech ddisgwyl cael eich hysbysu os nad yw'r Ysgol/Adran Weinyddol yn gallu bodloni'r terfyn amser hwn am unrhyw reswm.)

**Adolygiad Terfynol o Ganlyniad Cam 2 y G**ŵyn ac Adolygiad Allanol

Os ydych yn anfodlon â chanlyniad Cam 2 eich cwyn o hyd, cewch ofyn am Adolygiad Terfynol drwy lenwi'r Ffurflen Gais am Adolygiad Terfynol a'i chyflwyno i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Addysg **o fewn 14 diwrnod gwaith** o ddyddiad y llythyr/e-bost yn eich hysbysu ynghylch canlyniad Cam 2 eich cwyn. Mae'r

Weithdrefn ar gyfer Adolygiad Terfynol ar gael yn: https://myuni.swansea.ac.uk/cy/bywyd-academaidd/rheoliadau-academaidd/ymddygiad-a-chwynion/gweithdrefn-adolygiad-terfynol/

Pan fydd proses yr Adolygiad Terfynol wedi'i chwblhau, bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Addysg yn anfon llythyr "Cwblhau Gweithdrefnau" atoch yn cadarnhau penderfyniad terfynol y Brifysgol a bod y gweithdrefnau wedi'u cwblhau. Yna gallwch ystyried gofyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch (OIA) gynnal adolygiad allanol o'r ffordd yr ymdriniwyd â'ch achos. Mae rhagor o wybodaeth am Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gael ar ei gwefan: www.oiahe.org.uk/.

Diweddarwyd ddiwethaf ym mis Mai 2024